


Llywodraeth Cymru
Welsh Government

# Cynllun Ffermio Cynaliadwy Opsiynol: Grant Creu Coetir Bach

## Canllawiau Technegol

# Cynnwys


Cyflwyniad ..... 4

**ADRAN A – ASESU SAFLE ..... 5**

Y math o dir sy’n gymwys am gymorth ..... 5

Mathau o dir nad ydyn nhw’n gymwys am gymorth ..... 7

Safleoedd o Bwysigrwydd er Cadwraeth Natur ..... 8

Cydsyniadau, caniatâd ac ystyriaethau eraill ..... 9

Hawliau tramwy cyhoeddus ..... 9

Cyfleustodau uwchben neu o dan y ddaear ..... 9

Plannu wrth ymyl prif afonydd, nentydd a phyllau ..... 9

Prif afonydd ..... 10

Cyrsiau dŵr cyffredin ..... 10

Tystiolaeth o Foch Daear ..... 10

Perthi/gwrychoedd, waliau cerrig a chloddiau sy'n rhan o'r safle plannu neu gerllaw iddo ..... 11

Ardaloedd Gwiwerod Coch ..... 11

Amddiffyn coed rhag ceirw ..... 13

Coed presennol ..... 13

Plannu wrth adeilad anamaethyddol ..... 14

Cynefinoedd yn Haen Gyffredinol y Cynllun Ffermio Cynaliadwy (SFS) ..... 14

Rheolau plannu ..... 14

**ADRAN B – CATEGORI'R COETIR A’R CYMYSGEDD RHYWOGAETHAU ..... 17**

SW01 – Cymysgedd Rhywogaethau Bioamrywiaeth Frodorol 1100 ..... 18

SW02 – Cymysgedd Rhywogaethau Bioamrywiaeth Frodorol 1600 ..... 20

SW03 – Cymysgedd Rhywogaethau Coed Cysgodi Brodorol ..... 22

SW04 – Cymysgedd Rhywogaethau Wiwer Goch 1600 ..... 24

SW05 – Cymysgedd Rhywogaethau Wiwer Goch 2500 ..... 25

SW10 – Cymysgedd Rhywogaethau Coetir Gwlyb a Glan Nant 1100 ..... 26

SW11 – Cymysgedd Rhywogaethau Coetir Gwlyb a Glan Nant 1600 ..... 28

SW14 – Cymysgedd Rhywogaethau Cnau a Ffrwythau ..... 30

SW18 – Cymysgedd Rhywogaethau Arfordirol ..... 31

SW19 – Cymysgedd Rhywogaethau Cynhyrchiol (Coed Tân a Choed Cysgodi) ..... 32

**ADRAN C - MANYLEBAU GWAITH CYFALAF ..... 34**

Dulliau Plannu ..... 34

SW06 - Ffens Postyn a Weiar gyda Netin Stoc ..... 35

SW13 - Ffens ceirw ..... 37

SW07 - Cilbyst a Gât Ceffyl o Bren ..... 39

SW08 - Cilbyst a Gât Mochyn o Bren ..... 41

SW15 - Gât Safonol (Metel) ..... 42

SW16 - Gât Safonol (pren caled) ..... 43

SW17 - Gât Safonol (Pren Meddal) ..... 44

SW99 - Taliad am gyngor ..... 45

SW63 – Pibellau Cyflenwi Dŵr ........................................................................................ 46
SW21 – Gâr Ddŵr.................................................................... **Error! Bookmark not defined.**
SW22 – Cafnau Dŵr............................................................................................................ 50

© Hawlfraint y Goron 2026 ISBN Digidol: 978-1-80853-049-4

# Canllaw i'r SFS Opsiynol: Grant Creu Coetir Bach

## Cyflwyniad

Mae'r SFS Opsiynol: Grant Creu Coetir Bach yn gynllun sydd wedi ei anelu at ffermwyr a rheolwyr tir eraill i'w hannog i blannu coetiroedd bach ar dir sydd wedi'i wella'n amaethyddol neu dir isel ei werth yn amgylcheddol yng Nghymru.

Mae cyllid ar gael ar gyfer plannu coed a chodi ffensys a gatiau mewn amrywiaeth o fannau, gan gynnwys ar lannau cyrff dŵr, mewn corneli caeau, neu gaeau bach.

Gall plannu coed gyda chymorth y grant gynnig llawer o fanteision ymarferol ac amgylcheddol. Yn eu plith, cysgod i dda byw, pren a choed tân a chynefin gwerthfawr i fywyd gwyllt. Gall hefyd harddu'r tirlun a chynnig cyfleoedd i hamddena.

Mae'r SFS Opsiynol: Grant Creu Coetir Bach yn cynnig taliad hefyd i gynnal 12 mlynedd o waith Cynnal a Chadw a thaliad premiwm ar gyfer y gwaith plannu newydd.

Gall y grant hefyd dalu am gyngor proffesiynol i sicrhau bod eich gwaith plannu coed i dod â'r manteision mwyaf i'ch fferm.

Mae'r broses ymgeisio yn sicrhau bod cynigion yn bodloni gofynion the Safon Coedwigaeth y DU (UKFS) heb i chi orfod anfon cynllun creu coetir i Cyfoeth Naturiol Cymru (CNC) ar gyfer ei ddilysu. Mae cyllid ar gael ar gyfer plannu cyfanswm o rhwng 0.1ha ac 1.99ha o dir ond ni chaiff yr un llain fod yn llai na 0.01ha.

Mae'r cynllun yn cynnig grantiau i blannu coed ar dir cymwys sydd wedi'i nodi ar fap RPW Ar-lein. Nid yw cynefinoedd â blaenoriaeth na thir uwchlaw llinell derfyn tiroedd sydd wedi'u hamgáu na thir comin yn gymwys, oherwydd yr effaith bosibl ar y dirwedd a chymhlethdodau eraill. Dylech gadarnhau bod y tir rydych yn ei gynnig yn yr ardal gymwys cyn mynd ymhellach. Dangosir ardaloedd sy'n gymwys mewn oren ar y map. Os nad yw, ni fyddwch yn gymwys am yr SFS Opsiynol: Grant Creu Coetir Bach a bydd angen gwneud cais i'r Cynllun Cynllunio Creu Coetir (WCPS).

# ADRAN A – ASESU SAFLE

Cyn ichi ddatgan diddordeb, bydd angen ichi asesu'r safle rydych am blannu coed arno. Bydd yr asesiad yn eich helpu i gasglu gwybodaeth am addasrwydd y safle ac i ddatblygu cynigion ar gyfer eich cais.

Dylech ddarllen y canllaw isod ar **Cynefinoedd yn Haen Gyffredinol y Cynllun Ffermio Cynaliadwy** os ydych chi'n ystyried plannu coed ar dir sy'n gynefin.

## Y math o dir sy'n gymwys am gymorth

I ddiogelu cynefinoedd a allai fod yn sensitif, bydd angen ichi gadarnhau bod y safle rydych am blannu coed arno yn dir sydd wedi'i wella at ddibenion amaethyddol neu'n dir sydd o werth amgylcheddol isel drwy asesu'r safle ac edrych ar y lluniau canlynol. Fe welwch ffotograffau isod o'r mathau o dir sy'n gymwys am gymorth. Maen nhw'n cynnwys safleoedd a allai fod wedi'u gwella'n amaethyddol rai blynyddoedd yn ôl a lle na cheir cyfoeth o rywogaethau.

*Ucheldir neu dir pori mynydd wedi'i wella*





*Ardaloedd trwchus o redyn neu frwyn pabwyr, heb amrywiaeth o rywogaethau (gan gynnwys o dan y rhedyn)*





*Tir pori wedi'i wella ar lawr gwlad (gan gynnwys lleiniau o ddanadl/ysgall).*





## Mathau o dir nad ydyn nhw’n gymwys am gymorth

Bydd gofyn edrych a oes Cynefin â Blaenoriaeth neu Safle o Bwysigrwydd er Cadwraeth Natur neu gynefin lled-naturiol cyfoethog ei rywogaethau lle rydych am blannu coed gan na fydd y tiroedd hyn yn gymwys am gymorth. Dylech ystyried hyn fel rhan o unrhyw asesiad safle. Os ydy'r cynefinoedd hyn yn bresennol, gallech efallai wneud cais i’r Cynllun Cynllunio Creu Coetir yn lle hynny, a pharatoi plan creu coetir gyda chymorth Cynlluniwr Coetiroedd cofrestredig.

Mae’r ffotograffau isod yn help ichi adnabod y cynefinoedd â blaenoriaeth a'r cynefinoedd lled-naturiol cyfoethog eu rhywogaethau na allwch gael y grant ar eu cyfer. Os ar ôl cymharu'r lluniau isod nad ydych yn siwr a yw'r tir yn gynefin â blaenoriaeth neu'n gynefin lled-naturiol cyfoethog ei rywogaethau, dylech ofyn am gyngor (gweler Adran O o'r SFS Opsiynol: Grant Creu Coetir Bach - llyfryn rheolau) neu ystyried gwneud cais i'r Cynllun Cynllunio Creu Coetiroedd.

*Gweirgloddiau a thir pori blodeuog*



(Gyda diolch i Cyfoeth Naturiol Cymru)

*Ardaloedd o borfa gyda brwyn a chanran uchel o blanhigion llydanddail blodeuol (efallai dim ond yn yr haf y bydd modd eu gweld)*



*Gweunydd, gyda lleiniau o rug – yn aml o liw porffor ddiwedd yr haf*



*Rhosdir borfa twmpathog (glaswellt y gweunydd), nad yw da byw'n ei hoffi, yn aml yn wlyb*



**Safleoedd o Bwysigrwydd er Cadwraeth Natur**

Awdurdodau Lleol sy'n gyfrifol am ddynodi Safleoedd o Bwysigrwydd er Cadwraeth Natur. Os ydych yn gwybod bod safle o'r fath ar eich tir, yna ni fydd y safleoedd hynny'n gymwys am yr SFS Opsiynol: Grant Creu Coetir Bach. Os ydych am blannu coed ar y safleoedd hyn, dylech ystyried gwneud cais i'r Cynllun Cynllunio Creu Coetir (WCPS).

**Gylfinirod ac adar rhydio eraill sy'n bridio**

Gall coetir newydd effeithio'n ddrwg ar adar fel gylfinirod, cornchwiglod, pibyddion coesgoch, cwtiaid aur, pibyddion y mawn a gïachod sy'n byw ar dir agored. Os ydych chi'n gwybod am fodolaeth yr adar hyn o fewn 700m i'r safle lle rydych yn bwriadu creu coetir, byddem yn awgrymu'ch bod yn holi arbenigwr neu CNC am gyngor cyn ymgeisio.

Os ydych am blannu'ch coed mewn Ardal sy'n Bwysig i Gylfinirod, byddem yn awgrymu'ch bod chithe hefyd yn holi arbenigwr neu CNC am gyngor cyn ymgeisio. Gallwch gysylltu ag CNC am gyngor am ddim cyn ymgeisio trwy e-bostio: gwiriocynlluncoetir@cyfoethnaturiolcymru.gov.uk

## Cydsyniadau, caniatâd ac ystyriaethau eraill

### Hawliau tramwy cyhoeddus

Os ydych yn berchen neu'n meddiannu tir sydd â hawl tramwy cyhoeddus yn ei groesi, rhaid cadw'r llwybr yn weladwy, ei gadw'n glir a gofalu nad oes perygl i ddefnyddwyr. Awdurdodau lleol sy'n gyfrifol am reoli hawliau tramwy cyhoeddus. Rhaid gofalu nad yw gwaith yr SFS Opsiynol: Grant Creu Coetir Bach yn arwain at rwystro na pheryglu'r cyhoedd. Cysylltwch â'ch awdurdod cynllunio lleol os bydd unrhyw Waith Cyfalaf yn golygu bod angen gatiau neu arwyddion i gadw'r llwybr ar agor ac addas i'w ddiben. Lle cadarnheir bod hawl tramwy, bydd y contract yn cynnwys amodau amdano.

Rhaid i chi sicrhau bod unrhyw waith a wneir o dan yr SFS Opsiynol: Grant Creu Coetir Bach yn cydymffurfio â'ch cyfrifoldeb am hawliau tramwy cyhoeddus. Os oes angen codi ffens ar draws hawl tramwy, bydd angen ichi gysylltu â'ch Awdurdod Lleol a chael sêl ei fendith i'ch cynigion i godi ffens a gât. Fe welwch fanyleb ar gyfer ffensys a gatiau sy'n derbyn cymorth yr SFS Opsiynol: Grant Creu Coetir Bach ar ddiwedd y Canllawiau Technegol hyn. Lle cadarnheir bod hawl tramwy, bydd y contract yn cynnwys amodau amdano.

### Cyfleustodau uwchben neu o dan y ddaear

Fel rhan o'r broses ymgeisio, bydd angen ichi ddweud a oes cysylltiadau nwy, trydan ac ati uwchben neu o dan y ddaear ar y safle dan sylw (gwifrau, ceblau, pibellau ac ati). Ewch i'r gwefannau isod i weld a oes cysylltiadau nad ydych yn gwybod amdanyn nhw -

- Wales and West Utilities: cysylltiadau a gwasanaethau nwy (selectra.co.uk)
- Western Power Distribution - Check before you dig - location of our cables and equipment equipment

Os cewch gadarnhad fod yna gysylltiadau uwchben neu o dan y ddaear yn y safle plannu, caiff amodau eu cynnwys yn y contract y bydd yn rhaid ichi gadw atyn nhw.

### Plannu wrth ymyl prif afonydd, nentydd a phyllau

Rhaid defnyddio'r categori Coetir Gwlyb a Glan Nant (1100 neu 1600 o goed/ha) ar gyfer unrhyw waith plannu o fewn 20m i gwrs dŵr neu bwll parhaol – gweler yr adran Dewis Rhywogaethau. Mae'r categori'n addas hefyd ar gyfer lleiniau gwlypach a phistylloedd.

Dylech adael rhimyn o o leiaf 15m heb ei blannu ar lan ddeheuol pwll dŵr, rhag i gysgod y coed leihau ansawdd y pwll. Dylech sicrhau bod yna lwybrau ichi allu mynd yn rhwydd i'r safle i wneud gwaith cynnal a chadw.

Mae'n debygol y bydd angen caniatâd arnoch i blannu coed a chodi ffensys a gatiau ar neu wrth gwrs dŵr. Mae'r math o ganiatâd yn dibynnu a yw'r cwrs dŵr yn brif afon neu'n gwrs dŵr cyffredin.

## Prif afonydd

Diffinnir prif afon yn gyfreithiol fel cwrs dŵr a ddangosir ar fap y prif afonydd – gweler Cyfoeth Naturiol Cymru / Gweld a oes arnoch angen trwydded gweithgaredd perygl llifogydd. Mae prif afonydd yn cael eu dynodi'n brif afonydd am eu bod yn bwysig o ran rheoli llifogydd. Gall hyd yn oed cwrs dŵr bach fod yn brif afon.

Os byddwch am wneud gwaith mewn, dros, o dan neu ger (o fewn 8 metr) prif afon neu amddiffynfa rhag llifogydd (gan gynnwys morfur) neu ar orlifdir, efallai y bydd angen Trwydded Gweithgaredd Perygl Llifogydd (FRAP) arnoch. Gwnewch gais i CNC am drwydded i sicrhau na fydd eich gwaith yn creu perygl llifogydd neu'n gwneud perygl llifogydd yn waeth. Bydd angen trwydded arnoch hefyd i wneud yn siŵr na fydd eich gwaith yn amharu ar seilwaith atal llifogydd neu'n cael effaith ddrwg ar yr amgylchedd, pysgodfa neu fywyd gwyllt lleol

Mae CNC yn rhoi trwyddedau FRAP er mwyn lleihau'r risg o lifogydd trwy reoli gwaith a gweithgareddau datblygu. Caniateir rhai gweithgareddau mewn, dros, o dan a ger prif afon heb dâl a heb fod angen trwydded, cyn belled â'ch bod yn bodloni rhai amodau. Mae'r gweithgareddau hyn yn cael eu galw'n weithgareddau eithriedig: Bydd angen FRAP bwrpasol ar gyfer pob gweithgaredd arall.

O beidio â gwneud cais am drwydded, gall y canlyniadau fod yn ddrud. Gall CNC hawlio costau cywiro pethau oddi wrth yr ymgeisydd a gall hefyd ei erlyn. Hefyd, gallai Llywodraeth Cymru wrthod rhoi taliad neu ei hawlio yn ôl.

## Cyrsiau dŵr cyffredin

Os nad yw'ch cwrs dŵr yn brif afon, gallai fod yn gwrs dŵr cyffredin. Cyn belled na fydd gwaith cyfalaf y Grant Creu Coetir Bach yn rhwystro llif, yn effeithio ar storfa nac yn golygu codi cwlfert, ni fydd angen Caniatâd Cwrs Dŵr Cyffredin.

Os ydych am blannu ger prif afon, nant neu bwll dŵr, bydd eich contract yn cynnwys amodau y bydd yn rhaid ichi gadw atyn nhw.

## Tystiolaeth o Foch Daear

Chwiliwch am dystiolaeth fel olion traed, blew ar ffensys neu bentwr o bridd palu. Mae'r ffotograffau isod yn dangos beth ddylech chwilio amdano.

Lle ceir cadarnhad bod moch daear yn bresennol, caiff amodau eu cynnwys yn y contract y bydd angen i chi gadw atyn nhw i amddiffyn brochfa.

*Blew mochyn daear ar weiren bigog a phentwr o bridd palu.*





**Perthi/gwrychoedd, waliau cerrig a chloddiau sy'n rhan o'r safle plannu neu gerllaw iddo**

Mae ffiniau fel perthi/gwrychoedd, waliau cerrig a chloddiau yn cysylltu cynefinoedd, yn rhan o gymeriad y tirlun ac yn gallu rhoi gwybodaeth bwysig am ddefnydd tir a ffermio yn y gorffennol. Maen nhw'n cynnwys perthi 'hen' segur fel yr un yn y llun isod. Gall clawdd amrywio o fod yn nodwedd ddi-nod, anodd ei gweld i fod yn arglawdd anferth. Gall nodi safle neu ffin anheddiad. Gall yr olaf gynnwys nodweddion eraill fel hen goed, cerrig a pherthi.

Os byddwch am plannu o gwmpas perth, wal gerrig neu glawdd, neu gerllaw iddynt, caiff amodau eu cynnwys yn y contract i chi beidio â phlannu coed llydanddail o fewn 2m a choed conwydd o fewn 5m i ffiniau o'r fath.



## Ardaloedd Gwiwerod Coch

Os ydych am blannu coed mewn Ardal Gwiwerod Coch, rhaid defnyddio'r categori Wiwer Goch (1600 neu 2500 o goed/ha), oni bai bod y safle o fewn 20m i gwrs dŵr parhaol. Yna defnyddiwch y categori Coetir Gwlyb a Glan Nant (1100 neu 1600 o goed/ha).


Yn yr Ardaloedd Gwiwerod Coch isod, lle mae gwiwerod coch a gwiwerod llwyd yn byw, rhaid dylunio'r coetir newydd i ffafrio'r rhywogaeth frodorol - gan ymgorffori cymysgedd o goed conwydd. Nid ydym wedi cynnwys ardaloedd lle ceir gwiwerod

coch ond nid gwiwerod llwyd (fel Ynys Môn).


Ceir dwy ardal Gwiwerod Coch, un yn y gogledd, yn rhannau o Sir Ddinbych a Chonwy ac un yn y canolbarth, yn rhannau o Geredigion, Powys a Sir Gaerfyrddin. Cewch ragor o wybodaeth ym [map Gwiwerod - Ymddiriedolaeth Gwiwerod Coch Cymru]

Mae Ardaloedd Gwiwerod Coch ar gael ar FapDataCymru yma: [Map Cyfleoedd Coetir - Ardaloedd Gwiwerod Coch | MapDataCymru]

*Ardaloedd yn Sir Ddinbych a Chonwy*




*Ardaloedd yng Ngheredigion, Powys a Sir Gaerfyrddin*



## Amddiffyn coed rhag ceirw

Mae ceirw yn broblem ddifrifol ar safleoedd plannu os oes nifer fawr ohonyn nhw. Efallai y bydd angen defnyddio giardiau atal ceirw. Mae’r rhain yn bethau mawr a chymharol ddrud ac yn bethau amlwg yn y tirlun.

Os oes angen amddiffyn y coed rydych wedi’u plannu rhag ceirw, efallai y bydd angen codi ffens atal ceirw – darllenwch fanyleb SW13 yn Adran 3 – Manylebau Gwaith Cyfalaf.

## Coed presennol

Mae gwerth amgylcheddol mawr i goed (8cm o ddiamedr neu fwy) a phrysg (ardal o goed bychan a llwyni nad ydyn nhw’n addas i gynhyrchu pren) sydd eisoes yn tyfu ar safle. Ni ddylech eu clirio i blannu coed newydd ond dylech eu hymgorffori yn y safle plannu newydd, fel eu bod yn cynrychioli hyd at 15% o’r holl goed. Rhaid i nifer y coed a blennir yn y safle gyfateb i’r dwysedd plannu sydd wedi’i bennu. Os oes coed a llwyni ar y safle eisoes, efallai y bydd angen ichi blannu coed ar weddill y safle’n nes at ei gilydd er mwyn sicrhau’r dwysedd plannu. Ni ddylai fod bwlch o lai na 1 metr rhwng pob coeden. Os bydd y safle plannu’n cynnwys coed sy’n bod eisoes, bydd y contract yn cynnwys amodau.

Pwysig: ni chaiff plociau sylweddol o dri neu fwy o goed sy’n bod eisoes (codau cnydau SAF ZZ10 a ZZ11) eu cynnwys yn yr arwynebedd cymwys ar gyfer y cynllun hwn.

## Plannu wrth adeilad anamaethyddol

Gall plannu coed wrth eiddo preswyl neu fasnachol gael effaith andwyol o beidio â’i ystyried yn ofalus. Os ydych am blannu wrth adeilad anamaethyddol, byddai’n well ichi gyflogi cynlluniwr coetiroedd cofrestredig trwy’r Cynllun Cynllunio Creu Coetir.

Os bydd y gwaith plannu’n digwydd wrth adeilad anamaethyddol, bydd y contract yn cynnwys amodau.

## Cynefinoedd yn Haen Gyffredinol y Cynllun Ffermio Cynaliadwy (SFS)

Mae'r canllawiau hyn yn esbonio ble y gellir plannu coed ar dir sydd wedi'i gategoreiddio'n gynefin o dan Haen Gyffredinol yr SFS gan ddefnyddio'r SFS Opsiynol: Grant Creu Coetir Bach (SWCG)

Rhaid i ffermwyr yn yr Haen Gyffredinol gadw a chynnal yr holl gynefin lled-naturiol parhaol ar eu daliad a bodloni'r gofyn bod 10% o'u fferm yn gynefin. Fodd bynnag, ambell waith, gellir troi'r cynefin hwn yn goetir neu'n safle plannu coed.

Dylid darllen y canllawiau hyn law yn llaw â llyfryn rheolau Haen Gyffredinol yr SFS, gan gynnwys eich **Cynllun Cyfle i Blannu Coed a Pherthi/Gwrychoedd**, sy'n eich helpu i nodi lle y gallai plannu fod yn briodol ar eich fferm.

**Rheolau plannu**

**Os yw 10% neu fwy o'ch fferm yn gynefin parhaol (gan gynnwys coetir llydanddail cymwys):**

- Gallwch blannu coed ar ddarnau o gynefin dros y trothwy o 10%, os:
    - ydy RPW Ar-lein yn dangos eu bod yn gymwys, a
    - bod eich asesiad o'r safle yn cadarnhau bod y tir yn addas (h.y. mae o werth amgylcheddol isel ac nad yw'n gynefin sy'n gyfoethog o rywogaethau).

- Ni chewch blannu ar y cynefin parhaol sydd ei angen i fodloni'r gofyn bod 10% o'ch fferm yn gynefin, oni bai ei fod wedi'i nodi fel rhedyn trwchus – gweler '*Plannu ar redyn trwchus*' isod.

- Gellir defnyddio unrhyw gymysgedd o rywogaethau'r Grant Creu Coetir Bach i'w plannu ar dir cymwys sydd dros y trothwy o 10%. Gall plannu plociau o 0.1 hectar neu fwy gyfrif fel cynefin parhaol os yw o leiaf 80% o'r arwynebedd yn goed llydandail.

**Os yw llai na 10% o'ch fferm yn gynefin parhaol (gan gynnwys coetir llydanddail cymwys):**

- Ni chewch ddefnyddio'r Grant Creu Coetir Bach i blannu coed ar unrhyw gynefin parhaol sy'n bodoli eisoes.

- Yr unig eithriad yw ar redyn trwchus. Gellir plannu'r cymysgeddau rhywogaethau a restrir isod ar y tir hwnnw.

- Gallwch blannu unrhyw gymysgedd o rywogaethau'r Grant Creu Coetir Bach ar dir cymwys nad yw'n gynefin. Gall plannu arno mewn blociau o 0.1 hectar neu fwy gyfrif at y 10% o gynefin parhaol os yw o leiaf 80% o'r arwynebedd yn goed llydanddail.

*Nodyn* - Os ydych chi'n defnyddio UA6: Creu Cynefinoedd Dros Dro i fodloni'r gofyn bod 10% o'r fferm yn gynefin, gallwch ddefnyddio safleoedd plannu coed newydd (gan ddefnyddio'r Categorïau Coetir isod) i leihau faint o gynefin dros dro fydd ei angen yn y dyfodol. Er mwyn i'r plannu gyfrif tuag at y gofyn o 10% o gynefin mewn blwyddyn cynllun, rhaid iddo gael ei gwblhau erbyn 15 Mai.

**Plannu ar redyn trwchus**

- Gallwch blannu'r cymysgeddau canlynol o rywogaethau Grant Creu Coetir Bach ar gynefin parhaol a nodwyd fel rhedyn trwchus ar eich Map SFS:

    - Cymysgedd Rhywogaethau Bioamrywiaeth Frodorol 1100
    - Cymysgedd Rhywogaethau Bioamrywiaeth Frodorol 1600
    - Cymysgedd Rhywogaethau Wiwer Goch 1600
    - Cymysgedd Rhywogaethau Coetir Gwlyb a Glan Nant 1100
    - Cymysgedd Rhywogaethau Coetir Gwlyb a Glan Nant 1600
    - Cymysgedd Rhywogaethau Cnau a Ffrwythau
    - Cymysgedd Rhywogaethau Arfordirol

- Coed llydanddail brodorol yw'r rhain yn bennaf sydd wedi'u cynllunio i greu neu wella cynefin bywyd gwyllt.

- Am y diffiniad o redyn trwchus gweler Cynllun Ffermio Cynaliadwy: canllaw lluniau cynefin | LLYW.CYMRU.

- Bydd safleoedd plannu coed newydd ar redyn trwchus gan ddefnyddio'r Categorïau Coetir hyn yn parhau i gyfrif at y 10% o gynefin

**Enghraifft – Fferm sydd â 10% neu fwy ohoni'n gynefin parhaol (gan gynnwys coetir llydanddail cymwys)**

Mae fferm yn 100 ha. o faint. Mae ganddi 12 hectar o gynefin parhaol, felly 2 hectar yn fwy na'r trothwy o 10% o gynefin.

Mae 8 hectar wedi'i fapio fel gwlyptir wedi'i amgau (cors, ffen, mignen). Mae'r 4 hectar sy'n weddill wedi'u mapio fel rhedyn trwchus ac yn ardal gymwys yn ôl y map Grant Creu Coetir Bach.

Nid yw'r 8 hectar o wlyptir wedi'i amgau yn yr ardal gymwys ac ni chewch blannu coed y Grant Creu Coetir Bach arni . Yn Haen Gyffredinol yr SFS, caiff ei reoli o dan UA5: Cynnal Cynefin.

Mae'r ffermwr yn plannu "Cymysgedd Rhywogaethau Bioamrywiaeth Frodorol 1100," cymysgedd llydanddail brodorol, ar 2 hectar o redyn trwchus i fodloni'r gofyn o 10%.

Mae'r "SW19 - Cymysgedd Rhywogaethau Cynhyrchiol (Coed Tân  a Choed Cysgodi)" wedi'i blannu ar y 2 hectar sy'n weddill o redyn trwchus (dros y trothwy o 10%).

**Enghraifft – Mae fferm yn ystyried ymuno â Haen Gyffredinol yr SFS yn y dyfodol ac mae llai na 10% ohoni'n gynefin (gan gynnwys coetir llydanddail cymwys).**

Mae fferm yn 100 ha. o faint. Mae angen o leiaf 10 hectar i fodloni'r 10% o gynefin er mwyn cael ymuno â'r cynllun.

Mae 7 hectar o gynefin parhaol arni. Mae 5 hectar o hyn yn forfa heli ac felly ddim yn ardal gymwys ar fap y Grant Creu Coetir Bach. Mae 2 hectar yn rhedyn trwchus ac yn yr ardal gymwys.

Gallai'r fferm blannu ar y 2 hectar o redyn trwchus gan ddefnyddio categorïau coetir llydanddail brodorol y Grant Creu Coetir Bach. Byddai hyn yn parhau i gyfrif tuag at y 10% o gynefin. Fel arall, gallai ddewis cadw'r rhedyn trwchus neu greu cynefin parhaol newydd arall.

Mae angen 3 hectar arall ar y fferm i fodloni'r gofyn bod 10% ohoni'n gynefin.

Mae sawl opsiwn ar gael. Yn eu plith, dewis cyfuniad o opsiynau o UA6: Cynefin Dros Dro, creu cynefin parhaol newydd, a/neu blannu coetir llydanddail brodorol o dan y Grant Creu Coetir Bach. Mae'r ffermwr yn penderfynu plannu 2 hectar o "Cymysgedd Rhywogaethau Bioamrywiaeth Frodorol 1600", o dan y grant ac 1 ha o UA6: Cynefin Dros Dro os yw'n hawlio Haen Gyffredinol yr SFS.

Mae'r ffermwr yn ystyried ymuno â Haen Gyffredinol yr SFS yn y flwyddyn ganlynol. Bydd y coetir y bydd wedi'i greu yn cyfrif tuag at y gofyn o 10% pan fydd yn ymuno â'r cynllun.

# ADRAN B – CATEGORI'R COETIR A’R CYMYSGEDD RHYWOGAETHAU

Disgrifir y cymysgeddau o rywogaethau coed ar gyfer pob Categori Coetir a ganiateir o dan yr SFS Opsiynol: Grant Creu Coetir Bach yn y tablau isod, ynghyd â'r meini prawf plannu a'r manteision posibl y gall pob Categori eu cynnig i'ch fferm. Os ydych am ddefnyddio rhywogaethau neu gymysgeddau eraill, rhaid ichi wneud cais i’r Cynllun Cynllunio Creu Coetir.

Mae’n bwysig eich bod yn ystyried daearyddiaeth yr ardal rydych am blannu’r coed ynddi a’ch amcanion wrth greu’r coetir. Dylech feddwl a fydd un Categori Coetir yn addas i’r safle cyfan neu a ddylech rannu’r safle’n is-ardaloedd gwahanol. Er enghraifft, os oes tir gwlyb wrth droed rhiw, byddai’r categori Coetir Gwlyb a Glan Nant (1100 neu 1600 o goed/ha) yn addas ac efallai y bydd y categori Coed Cysgodol Brodorol yn fwy addas ar y lan sychach, gyferbyn. Bydd angen ichi ddangos y categorïau gwahanol hyn ar fap fel rhan o’ch cais ar-lein.

Mae’r categori Coetir Gwlyb a Glan Nant (1100 neu 1600 o goed/ha) yn orfodol ar gyfer pob llain o fewn 20m i gwrs dŵr a gellir ei ddefnyddio ar gyfer tir gwlyb hefyd ymhellach o gwrs dŵr. Mae’r categori Ardal y Wiwer Goch (1600 neu 2500 o goed/ha) yn orfodol mewn Ardaloedd Gwiwerod Coch ond gellir ei ddefnyddio mewn mannau eraill hefyd.

Rydym yn eich cynghori i fod yn gyfrifol wrth brynu coed i’w plannu a defnyddio meithrinfeydd neu gyflenwyr sy’n cadw at safonau cenedlaethol fel y 'Safon Rheoli Iechyd Planhigion', neu sydd â’u polisi bioddiogelwch eu hunain y gallwch ymddiried ynddo. Hefyd, dylech brynu stoc plannu sydd wedi’u tyfu ym Mhrydain i leihau’r risg o gyflwyno pla neu glefyd o wlad arall trwy ddamwain.

Mae’r mesurau gwarchod sydd eu hangen ar y coed iddyn nhw allu cydio yn amrywio gan ddibynnu ar y safle lle maen nhw’n cael eu plannu. Weithiau, ni fydd angen llewys coed, ond os oes eu hangen, rydyn ni’n annog rheolwyr tir i ddefnyddio llewys nad ydyn nhw wedi’u gwneud o blastig os bydd amodau’r safle’n caniatáu hynny. Am ragor o gyngor os oes angen, gweler Adran O o Lyfryn Rheolau'r SFS Opsiynol: Grant Creu Coetiroedd Bach.

## SW01 – Cymysgedd Rhywogaethau Bioamrywiaeth Frodorol 1100

**Pam dewis y categori hwn**

- Creu a chysylltu cynefin ar gyfer bywyd gwyllt brodorol Cymru

*Manteision Ychwanegol*

- Storio carbon mewn coed a phridd
- Darparu ffynhonnell gynaliadwy o fiomas a choed tân (e.e. ar gyfer llosgwyr biomas)
- Helpu ffermydd i arallgyfeirio
- Lleihau dibyniaeth busnes y fferm ar fiomas neu goed tân wedi'u prynu
- Gwneud y busnes yn fwy gwydn i wrthsefyll anwadalwch prisiau pren

**Meini prawf**

- Y cyfan yn llydanddail
- Dwysedd ar gyfartaledd o 1,100 o goed/ha, sy'n cyfateb i fwlch o 3m rhwng pob coeden. Amcan - bylchau amrywiol eu maint rhwng y coed – rhai coed yn agos at ei gilydd a bylchau rhwng clystyrau o goed.
- Lle medrir, plannu wrth goetir a pherthi/gwrychoedd sy'n bod eisoes
- Defnyddio cyn lleied o chwynladdwyr â phosibl
- Plannu â llaw neu bentyrru/clirio â pheiriant
- Gadael o leiaf bwlch o 1 metr o unrhyw ffens (hen neu newydd)
- Rhaid plannu o leiaf 5 rhywogaeth wahanol ond dim mwy na 10 rhywogaeth, wedi'u dewis o blith y rhai yn y tabl isod. Ni fydd yr un rhywogaeth yn llai na 10% nac yn fwy na 25% o'r holl goed a blennir.
- Peidiwch â phlannu mwy na thri math o lwyn prennaidd (y rheini ag * yn y tabl isod). Ni fyddant yn fwy na 30% o'r cyfanswm.

| | **Amodau Plannu Anodd** | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Rhywogaeth *llwyni | Pridd â Thuedd i Sychu | Agored (ucheldir) | Agored (arfordirol) | Pridd Alcaliaidd | Dwrlawn yn y Gaeaf | **Pob tir arall** |
| **Afalau surion** | Anaddas | Addas | Anaddas | Anaddas | Anaddas | Addas |
| **Masarnen Fach** | Anaddas | Addas | Anaddas | Addas | Anaddas | Addas |
| **Gwernen** | Anaddas | Addas | Addas | Addas | Addas | Addas |
| **Bedwen arian** | Addas | Addas | Anaddas | Anaddas | Anaddas | Addas |
| **Bedwen gyffredin** | Anaddas | Addas | Addas | Anaddas | Addas | Addas |
| **Oestrwydden** | Anaddas | Anaddas | Anaddas | Addas | Addas | Addas |
| **Poplysen ddu** | Anaddas | Anaddas | Anaddas | Anaddas | Addas | Addas |
| **Aethnen** | Anaddas | Addas | Addas | Addas | Addas | Addas |
| **Ceiriosen ddu** | Anaddas | Anaddas | Addas | Anaddas | Anaddas | Addas |
| **Ceiriosen yr adar** | Anaddas | Anaddas | Anaddas | Anaddas | Addas | Addas |

| | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| **Derwen mes di-goes** | Addas | Addas | Addas | Anaddas | Anaddas | Addas |
| **Derwen mes coesynnog** | Anaddas | Anaddas | Anaddas | Anaddas | Anaddas | Addas |
| **Helygen ddeilgron** | Anaddas | Addas | Anaddas | Anaddas | Addas | Addas |
| **Helygen lwyd** | Anaddas | Addas | Anaddas | Addas | Addas | Addas |
| **Criafolen** | Addas | Addas | Addas | Anaddas | Anaddas | Addas |
| **Pisgwydden deilen fach** | Anaddas | Anaddas | Anaddas | Anaddas | Anaddas | Addas |
| **Cerddinen wyllt** | Anaddas | Anaddas | Anaddas | Addas | Addas | Addas |
| **Ysgawen** | Anaddas | Anaddas | Anaddas | Anaddas | Addas | Addas |
| **Gwifwrnwydd y gors *** | Anaddas | Anaddas | Anaddas | Addas | Addas | Addas |
| **Draenen wen *** | Addas | Addas | Addas | Addas | Anaddas | Addas |
| **Draenen ddu *** | Addas | Addas | Addas | Addas | Anaddas | Addas |
| **Celynen *** | Addas | Addas | Addas | Anaddas | Anaddas | Addas |
| **Collen *** | Addas | Anaddas | Addas | Anaddas | Anaddas | Addas |
| **Cwyrosyn *** | Anaddas | Anaddas | Anaddas | Anaddas | Anaddas | Addas |

# SW02 – Cymysgedd Rhywogaethau Bioamrywiaeth Frodorol 1600

## Pam dewis y categori hwn

- Creu a chysylltu cynefin ar gyfer bywyd gwyllt brodorol Cymru

*Manteision Ychwanegol*

- 
- Storio carbon mewn coed a phridd
- Darparu ffynhonnell gynaliadwy o fiomas a choed tân (e.e. ar gyfer llosgwyr biomas)
- Helpu ffermydd i arallgyfeirio
- Lleihau dibyniaeth busnes y fferm ar fiomas neu goed tân wedi'u prynu
- Gwneud y busnes yn fwy gwydn i wrthsefyll anwadalwch prisiau pren

## Meini prawf

- Y cyfan yn llydanddail
- Dwysedd ar gyfartaledd o 1,600 o goed/ha, sy'n cyfateb i fwlch o 2.5m rhwng pob coeden. Amcan - bylchau amrywiol eu maint rhwng y coed – rhai coed yn agos at ei gilydd a bylchau rhwng clystyrau o goed.
- Lle medrir, plannu wrth goetir a pherthi/gwrychoedd sy'n bod eisoes
- Defnyddio cyn lleied o chwynladdwyr â phosibl
- Plannu â llaw neu bentyrru/clirio â pheiriant
- Gadael o leiaf bwlch o 1 metr o unrhyw ffens (hen neu newydd)
- Rhaid plannu o leiaf 5 rhywogaeth wahanol ond dim mwy na 10 rhywogaeth, wedi'u dewis o blith y rhai yn y tabl isod. Ni fydd yr un rhywogaeth yn llai na 10% nac yn fwy na 25% o'r holl goed a blennir.
- Peidiwch â phlannu mwy na thri math o lwyn prennaidd (y rheini ag * yn y tabl isod). Ni fyddant yn fwy na 30% o'r cyfanswm.

| | Amodau Plannu Anodd | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Rhywogaeth *llwyni | Pridd â Thuedd i Sychu | Agored (ucheldir) | Agored (arfordirol) | Pridd Alcalïaidd | Dwrlawn yn y Gaeaf | **Pob tir arall** |
| **Afalau surion** | Anaddas | Addas | Anaddas | Anaddas | Anaddas | Addas |
| **Masarnen Fach** | Anaddas | Addas | Anaddas | Addas | Anaddas | Addas |
| **Gwernen** | Anaddas | Addas | Addas | Addas | Addas | Addas |
| **Bedwen arian** | Addas | Addas | Anaddas | Anaddas | Anaddas | Addas |
| **Bedwen gyffredin** | Anaddas | Addas | Addas | Anaddas | Addas | Addas |
| **Oestrwydden** | Anaddas | Anaddas | Anaddas | Addas | Addas | Addas |
| **Poplysen ddu** | Anaddas | Anaddas | Anaddas | Anaddas | Addas | Addas |
| **Aethnen** | Anaddas | Addas | Addas | Addas | Addas | Addas |
| **Ceiriosen ddu** | Anaddas | Anaddas | Addas | Anaddas | Anaddas | Addas |

| | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| **Ceiriosen yr adar** | Anaddas | Anaddas | Anaddas | Anaddas | Addas | Addas |
| **Derwen mes di-goes** | Addas | Addas | Addas | Anaddas | Anaddas | Addas |
| **Derwen mes coesynnog** | Anaddas | Anaddas | Anaddas | Anaddas | Anaddas | Addas |
| **Helygen ddeilgron** | Anaddas | Addas | Anaddas | Anaddas | Addas | Addas |
| **Helygen lwyd** | Anaddas | Addas | Anaddas | Addas | Addas | Addas |
| **Criafolen** | Addas | Addas | Addas | Anaddas | Anaddas | Addas |
| **Pisgwydden deilen fach** | Anaddas | Anaddas | Anaddas | Anaddas | Anaddas | Addas |
| **Cerddinen wyllt** | Anaddas | Anaddas | Anaddas | Addas | Addas | Addas |
| **Ysgawen** | Anaddas | Anaddas | Anaddas | Anaddas | Addas | Addas |
| **Gwifwrnwydd y gors *** | Anaddas | Anaddas | Anaddas | Addas | Addas | Addas |
| **Draenen wen *** | Addas | Addas | Addas | Addas | Anaddas | Addas |
| **Draenen ddu *** | Addas | Addas | Addas | Addas | Anaddas | Addas |
| **Celynen *** | Addas | Addas | Addas | Anaddas | Anaddas | Addas |
| **Collen *** | Addas | Anaddas | Addas | Anaddas | Anaddas | Addas |
| **Cwyrosyn *** | Anaddas | Anaddas | Anaddas | Anaddas | Anaddas | Addas |

## SW03 – Cymysgedd Rhywogaethau Coed Cysgodi Brodorol

**Pam dewis y categori hwn**

- Rhoi cysgod i dda byw mewn caeau sy'n ffinio
- Gwella bioddiogelwch y fferm

*Manteision Ychwanegol*

- Estyn y tymor pori
- Creu a chysylltu cynefin ar gyfer bywyd gwyllt brodorol Cymru
- Storio carbon mewn coed a phridd

**Meini prawf**

- Y cyfan yn llydanddail
- Dwysedd ar gyfartaledd o 2,500 o goed/ha i wella effaith coed cysgodi, sy'n cyfateb i fwlch o 2m rhwng pob coeden
- Defnyddio cyn lleied o chwynladdwyr â phosibl
- Plannu â llaw neu bentyrru/clirio â pheiriant
- Gadael o leiaf bwlch o 1 metr o unrhyw ffens (hen neu newydd)
- Rhaid plannu o leiaf 5 rhywogaeth wahanol ond dim mwy na 10 rhywogaeth, wedi'u dewis o blith y rhai yn y tabl isod. Ni fydd yr un rhywogaeth yn llai na 10% nac yn fwy na 25% o'r holl goed a blennir.
- Peidiwch â phlannu mwy na thri math o lwyn prennaidd (y rheini ag * yn y tabl isod). Ni fyddant yn fwy na 30% o'r cyfanswm.

| * | Amodau Plannu Anodd | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Rhywogaeth *llwyni | Pridd â Thuedd i Sychu | Agored (ucheldir) | Agored (arfordirol) | Pridd Alcalïaidd | Dwrlawn yn y Gaeaf | **Pob tir arall** |
| **Afalau surion** | Anaddas | Addas | Anaddas | Anaddas | Anaddas | Addas |
| **Masarnen Fach** | Anaddas | Addas | Anaddas | Addas | Anaddas | Addas |
| **Gwernen** | Anaddas | Addas | Addas | Addas | Addas | Addas |
| **Bedwen arian** | Addas | Addas | Anaddas | Anaddas | Anaddas | Addas |
| **Bedwen gyffredin** | Anaddas | Addas | Addas | Anaddas | Addas | Addas |
| **Oestrwydden** | Anaddas | Anaddas | Anaddas | Addas | Addas | Addas |
| **Poplysen ddu** | Anaddas | Anaddas | Anaddas | Anaddas | Addas | Addas |
| **Aethnen** | Anaddas | Addas | Addas | Addas | Addas | Addas |
| **Ceiriosen ddu** | Anaddas | Anaddas | Addas | Anaddas | Anaddas | Addas |
| **Ceiriosen yr adar** | Anaddas | Anaddas | Anaddas | Anaddas | Addas | Addas |
| **Derwen mes di-goes** | Addas | Addas | Addas | Anaddas | Anaddas | Addas |
| **Derwen mes coesynnog** | Anaddas | Anaddas | Anaddas | Anaddas | Anaddas | Addas |

| | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| **Helygen ddeilgron** | Anaddas | Addas | Anaddas | Anaddas | Addas | Addas |
| **Helygen lwyd** | Anaddas | Addas | Anaddas | Addas | Addas | Addas |
| **Criafolen** | Addas | Addas | Addas | Anaddas | Anaddas | Addas |
| **Pisgwydden deilen fach** | Anaddas | Anaddas | Anaddas | Anaddas | Anaddas | Addas |
| **Cerddinen wyllt** | Anaddas | Anaddas | Anaddas | Addas | Addas | Addas |
| **Ysgawen** | Anaddas | Anaddas | Anaddas | Anaddas | Addas | Addas |
| **Gwifwrnwydd y gors *** | Anaddas | Anaddas | Anaddas | Addas | Addas | Addas |
| **Draenen wen *** | Addas | Addas | Addas | Addas | Anaddas | Addas |
| **Draenen ddu *** | Addas | Addas | Addas | Addas | Anaddas | Addas |
| **Celynen *** | Addas | Addas | Addas | Anaddas | Anaddas | Addas |
| **Collen *** | Addas | Anaddas | Addas | Anaddas | Anaddas | Addas |
| **Cwyrosyn *** | Anaddas | Anaddas | Anaddas | Anaddas | Anaddas | Addas |

## SW04 – Cymysgedd Rhywogaethau Wiwer Goch 1600

**Pam dewis y categori hwn**

- Yn addas ar gyfer ardaloedd gwiwerod coch
- Creu a chysylltu cynefin ar gyfer y wiwer goch sydd mewn perygl a rhywogaethau brodorol eraill

*Manteision Ychwanegol*

- Storio carbon mewn coed a phridd
- Tyfu coed ar gyfer pren
- Gwneud y busnes yn fwy gwydn i wrthsefyll anwadalwch prisiau pren
- Darparu ffynhonnell gynaliadwy o fiomas a choed tân (e.e. ar gyfer llosgwyr biomas)
- Helpu ffermydd i arallgyfeirio

**Meini prawf**

- Dwysedd ar gyfartaledd o 1,600 o goed/ha, sy'n cyfateb i fwlch o 2.5m rhwng pob coeden. Amcan - bylchau amrywiol eu maint rhwng y coed – rhai coed yn agos at ei gilydd a bylchau rhwng clystyrau o goed.
- Defnyddio cyn lleied o chwynladdwyr â phosibl
- Plannu â llaw neu bentyrru/clirio â pheiriant
- Gadael o leiaf bwlch o 1 metr o unrhyw ffens (hen neu newydd)
- Rhaid plannu o leiaf 5 rhywogaeth wahanol ond dim mwy na 10 rhywogaeth, wedi'u dewis o blith y rhai yn y tabl isod. Ni fydd yr un rhywogaeth yn llai na 10% nac yn fwy na 25% o'r holl goed a blennir.
- Gellir cynnwys hyd at 10% o lwyni prennaidd (y rheini ag * yn y tabl isod) a hyd at 20% o goed conwydd (y rheini ag (c) yn y tabl isod)

| | Amodau Plannu Anodd | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Rhywogaeth *llwyni | Pridd â Thuedd i Sychu | Agored (ucheldir) | Agored (arfordirol) | Pridd Alcalïaidd | Dwrlawn yn y Gaeaf | **Pob tir arall** |
| **Bedwen arian** | Addas | Addas | Anaddas | Anaddas | Anaddas | Addas |
| **Bedwen gyffredin** | Anaddas | Addas | Addas | Anaddas | Anaddas | Addas |
| **Gwifwrnwydd y gors *** | Anaddas | Anaddas | Anaddas | Addas | Addas | Addas |
| **Draenen wen *** | Addas | Addas | Addas | Addas | Anaddas | Addas |
| **Draenen ddu *** | Addas | Addas | Addas | Addas | Anaddas | Addas |
| **Celynen *** | Addas | Addas | Addas | Anaddas | Anaddas | Addas |
| **Cwyrosyn *** | Anaddas | Anaddas | Anaddas | Anaddas | Anaddas | Addas |
| **Sbriwsen Sitka (c)** | Anaddas | Addas | Addas | Anaddas | Addas | Addas |
| **Sbriwsen Norwy (c)** | Anaddas | Addas | Anaddas | Addas | Addas | Addas |
| **Pinwydden yr Alban (c)** | Addas | Addas | Addas | Anaddas | Anaddas | Addas |
| **Ffynidwydden Douglas (c)** | Addas | Anaddas | Anaddas | Anaddas | Anaddas | Addas |
| **Pinwydden Lodgepole (c)** | Addas | Addas | Addas | Addas | Addas | Addas |

# SW05 – Cymysgedd Rhywogaethau Wiwer Goch 2500

**Pam dewis y categori hwn**

- Yn addas ar gyfer ardaloedd gwiwerod coch
- Creu a chysylltu cynefin ar gyfer y wiwer goch sydd mewn perygl a rhywogaethau brodorol eraill

*Manteision Ychwanegol*

- Storio carbon mewn coed a phridd
- Tyfu coed ar gyfer pren
- Gwneud y busnes yn fwy gwydn i wrthsefyll anwadalwch prisiau pren
- Darparu ffynhonnell gynaliadwy o fiomas a choed tân (e.e. ar gyfer llosgwyr biomas)
- Helpu ffermydd i arallgyfeirio

**Meini prawf**

- Dwysedd ar gyfartaledd  o 2,500 o goed/ha, yn cyfateb i fwlch o 2m rhwng pob coeden
- Defnyddio cyn lleied o chwynladdwyr â phosibl
- Plannu â llaw neu bentyrru/clirio â pheiriant
- Gadael o leiaf bwlch o 1 metr o unrhyw ffens (hen neu newydd)
- Rhaid plannu o leiaf 5 rhywogaeth wahanol ond dim mwy na 10 rhywogaeth, wedi'u dewis o blith y rhai yn y tabl isod. Ni fydd yr un rhywogaeth yn llai na 10% nac yn fwy na 25% o'r holl goed a blennir.
- Gellir cynnwys hyd at 10% o lwyni prennaidd (y rheini ag * yn y tabl isod) a hyd at 20% o goed conwydd (y rheini ag (c) yn y tabl isod)

| | Amodau Plannu Anodd | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Rhywogaeth *llwyni | Pridd â Thuedd i Sychu | Agored (ucheldir) | Agored (arfordirol) | Pridd Alcalïaidd | Dwrlawn yn y Gaeaf | **Pob tir arall** |
| **Bedwen arian** | Addas | Addas | Anaddas | Anaddas | Anaddas | Addas |
| **Bedwen gyffredin** | Anaddas | Addas | Addas | Anaddas | Anaddas | Addas |
| **Gwifwrnwydd y gors *** | Anaddas | Anaddas | Anaddas | Addas | Addas | Addas |
| **Draenen wen *** | Addas | Addas | Addas | Addas | Anaddas | Addas |
| **Draenen ddu *** | Addas | Addas | Addas | Addas | Anaddas | Addas |
| **Celynen *** | Addas | Addas | Addas | Anaddas | Anaddas | Addas |
| **Cwyrosyn *** | Anaddas | Anaddas | Anaddas | Anaddas | Anaddas | Addas |
| **Sbriwsen Sitka (c)** | Anaddas | Addas | Addas | Anaddas | Addas | Addas |
| **Sbriwsen Norwy (c)** | Anaddas | Addas | Anaddas | Addas | Addas | Addas |
| **Pinwydden yr Alban (c)** | Addas | Addas | Addas | Anaddas | Anaddas | Addas |
| **Ffynidwydden Douglas (c)** | Addas | Anaddas | Anaddas | Anaddas | Anaddas | Addas |
| **Pinwydden Lodgepole (c)** | Addas | Addas | Addas | Addas | Addas | Addas |

# SW10 – Cymysgedd Rhywogaethau Coetir Gwlyb a Glan Nant 1100

**Pam dewis y categori hwn**

- Gwella ansawdd dŵr
- Lleihau neu arafu llif dŵr ar wyneb tir
- Lleihau erydiad pridd
- Creu a chysylltu cynefin ar gyfer bywyd gwyllt brodorol Cymru
- Creu mwy o gysgod bylchog ar hyd cyrsiau dŵr (e.e. ar gyfer eogiaid )

*Manteision Ychwanegol*

- Storio carbon mewn coed a phridd
- Rheoli stoc a bioamrywiaeth

**Meini prawf**

- Defnyddiwch yr opsiwn os yw'r safle o fewn 20m i gwrs dŵr neu bwll parhaol
- 1,100 o goed/ha, bylchau amrywiol eu maint rhyngddynt – rhai coed yn agos at ei gilydd a bylchau rhwng clystyrau o goed.
- Sefydlu a chynnal canopi amrywiol ond agored gan fwyaf, gyda hanner y cwrs dŵr yn agored i heulwen a'r hanner arall o dan gysgod brith
- Gadael 1m o dir agored ar lan y dŵr ar gyfer llystyfiant glan-afon.
- Dim plaladdwyr na chwynladdwyr
- Plannu â llaw yn unig
- Gadael o leiaf bwlch o 1 metr o unrhyw ffens (hen neu newydd)
- Rhaid plannu o leiaf 5 rhywogaeth wahanol ond dim mwy na 10 rhywogaeth, wedi'u dewis o blith y rhai yn y tabl isod. Ni fydd yr un rhywogaeth yn llai na 10% nac yn fwy na 25% o'r holl goed a blennir.
- Gellir cynnwys hyd at 20% o lwyni prennaidd (y rheini ag * yn y tabl isod)
- Ni ddylid plannu mwy na 10% o goed gwern

| | Amodau Plannu Anodd | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Rhywogaeth *llwyni | Pridd â Thuedd i Sychu | Agored (ucheldir) | Agored (arfordirol) | Pridd Alcalïaidd | Dwrlawn yn y Gaeaf | **Pob tir arall (gan gynnwys pridd asidig)** |
| **Gwernen** | Anaddas | Addas | Addas | Addas | Addas | Addas |
| **Ceiriosen yr adar** | Anaddas | Anaddas | Anaddas | Anaddas | Addas | Addas |
| **Bedwen arian** | Addas | Addas | Anaddas | Anaddas | Anaddas | Addas |
| **Bedwen gyffredin** | Anaddas | Addas | Addas | Anaddas | Anaddas | Addas |
| **Poplysen ddu** | Anaddas | Anaddas | Anaddas | Anaddas | Addas | Addas |
| **Aethnen** | Anaddas | Addas | Addas | Addas | Addas | Addas |
| **Helygen Wen** | Anaddas | Addas | Anaddas | Anaddas | Addas | Addas |
| **Helygen ddeilgron** | Anaddas | Addas | Anaddas | Anaddas | Addas | Addas |
| **Helygen lwyd** | Anaddas | Addas | Anaddas | Addas | Addas | Addas |
| **Ysgawen** | Anaddas | Anaddas | Anaddas | Anaddas | Addas | Addas |

| | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| **Gwifwrnwydd y gors *** | Anaddas | Anaddas | Anaddas | Addas | Addas | Addas |
| **Draenen wen *** | Addas | Addas | Addas | Addas | Anaddas | Addas |
| **Draenen ddu *** | Addas | Addas | Addas | Addas | Anaddas | Addas |
| **Celynen *** | Addas | Addas | Addas | Anaddas | Anaddas | Addas |

# SW11 – Cymysgedd Rhywogaethau Coetir Gwlyb a Glan Nant 1600

## Pam dewis y categori hwn

- Gwella ansawdd dŵr
- Lleihau neu arafu llif dŵr ar wyneb tir
- Lleihau erydiad pridd
- Creu a chysylltu cynefin ar gyfer bywyd gwyllt brodorol Cymru
- Creu mwy o gysgod bylchog ar hyd cyrsiau dŵr (e.e. ar gyfer eogiaid )

*Manteision Ychwanegol*

- Storio carbon mewn coed a phridd
- Rheoli stoc a bioamrywiaeth

## Meini prawf

- Defnyddiwch yr opsiwn os yw'r safle o fewn 20m i gwrs dŵr neu bwll parhaol
- 1,600 o goed/ha, bylchau amrywiol eu maint rhyngddynt – rhai coed yn agos at ei gilydd a bylchau rhwng clystyrau o goed.
- Sefydlu a chynnal canopi amrywiol ond agored gan fwyaf, gyda hanner y cwrs dŵr yn agored i heulwen a'r hanner arall o dan gysgod brith
- Gadael 1m o dir agored ar lan y dŵr ar gyfer llystyfiant glan-afon.
- Dim plaladdwyr na chwynladdwyr
- Plannu â llaw yn unig
- Gadael o leiaf bwlch o 1 metr o unrhyw ffens (hen neu newydd)
- Rhaid plannu o leiaf 5 rhywogaeth wahanol ond dim mwy na 10 rhywogaeth, wedi'u dewis o blith y rhai yn y tabl isod. Ni fydd yr un rhywogaeth yn llai na 10% nac yn fwy na 25% o'r holl goed a blennir.
- Gellir cynnwys hyd at 20% o lwyni prennaidd (y rheini ag * yn y tabl isod)

| | Amodau Plannu Anodd | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Rhywogaeth *llwyni | Pridd â Thuedd i Sychu | Agored (ucheldir) | Agored (arfordirol) | Pridd Alcalïaidd | Dwrlawn yn y Gaeaf | **Pob tir arall (gan gynnwys pridd asidig)** |
| **Gwernen** | Anaddas | Addas | Addas | Addas | Addas | Addas |
| **Ceiriosen yr adar** | Anaddas | Anaddas | Anaddas | Anaddas | Addas | Addas |
| **Bedwen arian** | Addas | Addas | Anaddas | Anaddas | Anaddas | Addas |
| **Bedwen gyffredin** | Anaddas | Addas | Addas | Anaddas | Anaddas | Addas |
| **Poplysen ddu** | Anaddas | Anaddas | Anaddas | Anaddas | Addas | Addas |
| **Aethnen** | Anaddas | Addas | Addas | Addas | Addas | Addas |
| **Helygen Wen** | Anaddas | Addas | Anaddas | Anaddas | Addas | Addas |
| **Helygen ddeilgron** | Anaddas | Addas | Anaddas | Anaddas | Addas | Addas |
| **Helygen lwyd** | Anaddas | Addas | Anaddas | Addas | Addas | Addas |
| **Ysgawen** | Anaddas | Anaddas | Anaddas | Anaddas | Addas | Addas |
| **Gwifwrnwydd y gors *** | Anaddas | Anaddas | Anaddas | Addas | Addas | Addas |
| **Draenen wen *** | Addas | Addas | Addas | Addas | Anaddas | Addas |

| | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| **Draenen ddu *** | Addas | Addas | Addas | Addas | Anaddas | Addas |
| **Celynen *** | Addas | Addas | Addas | Anaddas | Anaddas | Addas |

## SW14 – Cymysgedd Rhywogaethau Cnau a Ffrwythau

### Pam dewis y categori hwn

- Cynhyrchu bwyd
- Creu a chysylltu cynefin ar gyfer bywyd gwyllt brodorol Cymru (e.e. peillwyr)
- Helpu ffermydd i arallgyfeirio

*Manteision Ychwanegol*

- Lleihau erydiad pridd
- Gwella ansawdd dŵr
- Lleihau neu arafu llif dŵr ar wyneb tir

### Meini prawf

- Dwysedd ar gyfartaledd  o 800 o goed/ha, yn cyfateb i fwlch o 3.5m rhwng pob coeden
- Defnyddio cyn lleied o chwynladdwyr â phosibl
- Plannu â llaw neu bentyrru/clirio â pheiriant
- Gadael o leiaf bwlch o 1 metr o unrhyw ffens (hen neu newydd)
- Rhaid plannu o leiaf 5 rhywogaeth wahanol ond dim mwy na 10 rhywogaeth, wedi'u dewis o blith y rhai yn y tabl isod. Ni fydd yr un rhywogaeth yn llai na 10% nac yn fwy na 25% o'r holl goed a blennir.
- Gellir cynnwys hyd at 15% o lwyni prennaidd (y rheini ag * yn y tabl isod) a 30% o goed ffrwythau masnachol (y rheini ag f yn y tabl isod)

| Rhywogaeth<br>*llwyni | |
|---|---|
| **Coeden afalau (f)** | **Addas ar gyfer safleoedd cysgodol ar bridd wedi'i ddraenio'n dda** |
| **Afalau surion** | |
| **Ysgawen** | |
| **Coed gellyg (f)** | |
| **Coed eirin (f)** | |
| **Ceiriosen ddu** | |
| **Coeden cnau Ffrengig** | |
| **Coeden cnau Ffrengig du** | |
| **Draenen ddu *** | |
| **Collen *** | |

## SW18 – Cymysgedd Rhywogaethau Arfordirol

### Pam dewis y categori hwn

- Lleihau erydiad pridd
- Rhoi cysgod i dda byw mewn caeau sy'n ffinio

*Manteision Ychwanegol*

- Gwella ansawdd dŵr
- Storio carbon mewn coed a phridd
- Lleihau neu arafu llif dŵr ar wyneb tir
- Creu a chysylltu cynefin ar gyfer bywyd gwyllt brodorol Cymru

### Meini prawf

- Ar gael o fewn 500 m i'r arfordir
- Dwysedd ar gyfartaledd o 800 o goed/ha, sy'n cyfateb i fwlch o 3.5m rhwng pob coeden. Amcan - bylchau amrywiol eu maint rhwng y coed – rhai coed yn agos at ei gilydd a bylchau rhwng clystyrau o goed.
- Defnyddio cyn lleied o chwynladdwyr â phosibl
- Plannu â llaw neu bentyrru/clirio â pheiriant
- Gadael o leiaf bwlch o 1 metr o unrhyw ffens (hen neu newydd)
- Rhaid plannu o leiaf 4 rhywogaeth wahanol ond dim mwy na 10 rhywogaeth, wedi'u dewis o blith y rhai yn y tabl isod. Ni fydd yr un rhywogaeth yn llai na 10% nac yn fwy na 35% o'r holl goed a blennir.
- Gellir cynnwys hyd at 50% o lwyni prennaidd (y rheini ag * yn y tabl isod)

| | Amodau Plannu Anodd | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Rhywogaeth *llwyni | Pridd â Thueddi i Sychu | Agored (ucheldir) | Agored (arfordirol) | Pridd Alcalïaidd | Dwrlawn yn y Gaeaf | **Pob tir arall** |
| **Afalau surion** | Anaddas | Addas | Anaddas | Anaddas | Anaddas | Addas |
| **Ysgawen** | Anaddas | Anaddas | Anaddas | Anaddas | Addas | Addas |
| **Aethnen** | Anaddas | Addas | Addas | Addas | Addas | Addas |
| **Gwernen** | Anaddas | Addas | Addas | Addas | Addas | Addas |
| **Helygen** | Anaddas | Addas | Anaddas | Anaddas | Addas | Addas |
| **Derwen mes di-goes** | Addas | Addas | Addas | Anaddas | Anaddas | Addas |
| **Aethnen Ddu** | Anaddas | Anaddas | Anaddas | Anaddas | Addas | Addas |
| **Leim** | Anaddas | Anaddas | Anaddas | Anaddas | Anaddas | Addas |
| **Ceiriosen ddu** | Anaddas | Anaddas | Addas | Anaddas | Anaddas | Addas |
| **Criafolen** | Addas | Addas | Addas | Anaddas | Anaddas | Addas |
| **Masarnen** | Anaddas | Anaddas | Addas | Addas | Anaddas | Addas |
| **Draenen wen *** | Addas | Addas | Addas | Addas | Anaddas | Addas |
| **Gwifwrnwydd y gors *** | Anaddas | Anaddas | Anaddas | Addas | Addas | Addas |
| **Draenen ddu *** | Addas | Addas | Addas | Addas | Anaddas | Addas |
| **Celynen *** | Addas | Addas | Addas | Anaddas | Anaddas | Addas |
| **Collen *** | Addas | Anaddas | Addas | Anaddas | Anaddas | Addas |

## SW19 – Cymysgedd Rhywogaethau Cynhyrchiol (Coed Tân a Choed Cysgodi)

### Pam dewis y categori hwn

- Tyfu coed ar gyfer biomas a choed tân e.e. llosgyddion biomas
- Gwneud y busnes yn fwy gwydn i wrthsefyll anwadalwch prisiau pren
- Gwella bioddiogelwch y fferm
- Storio carbon mewn coed a phridd
- Rhoi cysgod i dda byw mewn caeau sy'n ffinio
- Helpu ffermydd i arallgyfeirio
- Helpu'r fferm i fod yn hunangynhaliol

*Manteision Ychwanegol*

- Creu a chysylltu cynefin ar gyfer bywyd gwyllt brodorol Cymru
- Estyn y tymor pori

### Meini prawf

- Dwysedd ar gyfartaledd o 2,500 o goed/ha i wella effaith coed cysgodi, sy'n cyfateb i fwlch o 2m rhwng pob coeden
- Defnyddio cyn lleied o chwynladdwyr â phosibl
- Plannu â llaw neu bentyrru/clirio â pheiriant
- Gadael o leiaf bwlch o 1 metr o unrhyw ffens (hen neu newydd)
- Rhaid plannu o leiaf 5 rhywogaeth wahanol ond dim mwy na 10 rhywogaeth, wedi'u dewis o blith y rhai yn y tabl isod. Ni fydd yr un rhywogaeth yn llai na 10% nac yn fwy na 25% o'r holl goed a blennir.
- Gellir cynnwys hyd at 15% o lwyni prennaidd (y rheini ag * yn y tabl isod) a hyd at 45% o goed conwydd (y rheini ag (c) yn y tabl isod)

| | Amodau Plannu Anodd | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Rhywogaeth *llwyni | Pridd â Thuedd i Sychu | Agored (ucheldir) | Agored (arfordirol) | Pridd Alcalïaidd | Dwrlawn yn y Gaeaf | **Pob tir arall** |
| **Afalau surion** | Anaddas | Addas | Anaddas | Anaddas | Anaddas | Addas |
| **Masarnen Fach** | Anaddas | Addas | Anaddas | Addas | Anaddas | Addas |
| **Gwernen** | Anaddas | Addas | Addas | Addas | Addas | Addas |
| **Bedwen arian** | Addas | Addas | Anaddas | Anaddas | Anaddas | Addas |
| **Gwernen yr Eidal** | Addas | Addas | Addas | Addas | Addas | Addas |
| **Bedwen gyffredin** | Anaddas | Addas | Addas | Anaddas | Anaddas | Addas |
| **Oestrwydden** | Anaddas | Anaddas | Anaddas | Addas | Addas | Addas |
| **Poplysen ddu** | Anaddas | Anaddas | Anaddas | Anaddas | Addas | Addas |
| **Aethnen** | Anaddas | Addas | Addas | Addas | Addas | Addas |
| **Ceiriosen ddu** | Anaddas | Anaddas | Addas | Anaddas | Anaddas | Addas |
| **Ceiriosen yr adar** | Anaddas | Anaddas | Anaddas | Anaddas | Addas | Addas |
| **Derwen mes di-goes** | Addas | Addas | Addas | Anaddas | Anaddas | Addas |


| | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| **Derwen mes coesynnog** | Anaddas | Anaddas | Anaddas | Anaddas | Anaddas | Addas |
| **Helygen ddeilgron** | Anaddas | Addas | Anaddas | Anaddas | Addas | Addas |
| **Helygen lwyd** | Anaddas | Addas | Anaddas | Addas | Addas | Addas |
| **Criafolen** | Addas | Addas | Addas | Anaddas | Anaddas | Addas |
| **Pisgwydden deilen fach** | Anaddas | Anaddas | Anaddas | Anaddas | Anaddas | Addas |
| **Gwasanaeth** | Anaddas | Anaddas | Anaddas | Addas | Addas | Addas |
| **Ysgawen** | Anaddas | Anaddas | Anaddas | Anaddas | Addas | Addas |
| **Masarnen** | Anaddas | Anaddas | Addas | Addas | Anaddas | Addas |
| **Castanwydden Bêr** | Anaddas | Anaddas | Anaddas | Addas | Anaddas | Addas |
| **Gwifwrnwydd y gors *** | Anaddas | Anaddas | Anaddas | Addas | Addas | Addas |
| **Draenen wen *** | Addas | Addas | Addas | Addas | Anaddas | Addas |
| **Draenen ddu *** | Addas | Addas | Addas | Addas | Anaddas | Addas |
| **Celynen *** | Addas | Addas | Addas | Anaddas | Anaddas | Addas |
| **Collen *** | Addas | Anaddas | Addas | Anaddas | Anaddas | Addas |
| **Cwyrosyn *** | Anaddas | Anaddas | Anaddas | Anaddas | Anaddas | Addas |
| **Sbriwsen Sitka (c)** | Anaddas | Addas | Addas | Anaddas | Addas | Addas |
| **Sbriwsen Norwy (c)** | Anaddas | Addas | Anaddas | Addas | Addas | Addas |
| **Cedrwydden goch (c)** | Anaddas | Anaddas | Anaddas | Anaddas | Anaddas | Addas |
| **Ffynidwydden Douglas (c)** | Ydy | Anaddas | Anaddas | Anaddas | Anaddas | Addas |
| **Pinwydden Lodgepole (c)** | Addas | Addas | Addas | Addas | Addas | Addas |

# ADRAN C - MANYLEBAU GWAITH CYFALAF

## Dulliau Plannu

Wrth blannu coed, rhaid eu plannu â llaw neu drwy greithio pridd neu drwy greu twmpathau wyneb i wared a cholynnog. Os ydych am ddefnyddio dull arall i blannu'r coed, caiff eich mynegiant o ddiddordeb ei wrthod.

**Plannu â llaw** – sef defnyddio rhaw i wneud hollt yn y pridd a phlannu coeden ynddo. Bydd y math o hollt yn dibynnu ar gyflwr y pridd a maint y goeden. Bydd hollt "V" syml yn addas ar gyfer coed llai â gwreiddiau moel; bydd holltau siâp "L" a "T" yn fwy addas ar gyfer coed â gwreiddiau mwy.




Mae **creithio** yn golygu bas-grafu'r uwchbridd, i godi unrhyw ddeiliach a llystyfiant, cyn plannu. Os defnyddir peiriant, caiff ei wneud mewn rhesi gyda'r bylchau'n cyfateb i'r dwysedd plannu sydd ei angen. Bydd creithio â llaw yn golygu defnyddio rhaw blannu, sawdl esgid, caib neu hof (gan ddibynnu ar ba mor anodd yw'r safle) i symud yr uwchbridd. **Ni chaniateir creithio â pheiriant mewn Coetir Gwlyb a Glan Nant 1100 a 1600.**

**Twmpath wyneb i wared** – defnyddir peiriant i droi wyneb y pridd hyd at ddyfnder o ryw 20cm. Rhoddir y deunydd a godir yn ôl ar ben y twll y daeth ohono. **Peidiwch â defnyddio'r dull hwn mewn Coetir Gwlyb a Glan Nant 1100 a 1600.**

**Twmpath colynnog** – defnyddir peiriant i roi'r pentwr o bridd sy'n cael ei droi wrth y twll, gyda'r llystyfiant yn gweithio fel colyn. **Peidiwch â defnyddio'r dull hwn mewn Coetir Gwlyb a Glan Nant 1100 a 1600.**

## SW06 - Ffens Postyn a Weiar gyda Netin Stoc

Mae'r nodyn technegol hwn yn disgrifio'r safon y bydd gofyn i'r gwaith ei chyrraedd ichi allu cael taliad ar gyfer 'Ffens Postyn a Weiar gyda Netin Stoc'.

Rhaid cadw at y canlynol:


- Gofalwch eich bod wedi cael ac yn cadw at unrhyw drwydded neu ganiatâd sydd ei angen arnoch.
- Defnyddiwch naill ai bren caled neu bren meddal wedi'i drin dan bwysau.
- Rhaid i'r pren, y weiren, y netin a'r staplau wedi'u galfaneiddio i gyd fod yn newydd.
- Bydd gan y pyst tynnu groestoriad o 12.5cm fan leiaf a byddant o leiaf 2m o hyd. Rhaid gosod y pyst tynnu'n ddigon dwfn yn y pridd i'w sefydlogi. Rhaid rhoi pyst tynnu bob pen y ffens a phob 100m neu lai yng nghanol y ffens. Rhaid gosod pyst tynnu hefyd bob tro y mae'r tir yn mynd i fyny neu i lawr neu'n newid cyfeiriad.
- Rhaid rhoi pwyslathau (strytiau) ar y pyst sydd ym mhen llinell y ffens a phan fydd y tir yn mynd i fyny neu i lawr neu'n newid cyfeiriad. Bydd gan y pwyslathau ddiamedr o 6.5cm neu fwy a rhaid eu cynnal rhag ymwthio allan. Ni ddylai pyst canol fod â diamedr o lai na 6.5cm (pyst crwn a phren wedi'i llifio) a dylent fod o leiaf 1.7m o hyd. Mae pyst hanner crwn yn gwneud y tro cyn belled â'u bod yn mesur o leiaf 6.5cm o bwynt canol yr ochr sydd wedi'i llifio i bwynt canol yr ochr gron. Rhaid gosod y pyst canol bob 3m neu lai.
- Rhaid cysylltu'r netin wrth y pyst â staplau wedi'u galfaneiddio.
- Rhaid defnyddio staplau wedi'u galfaneiddio i gysylltu pob weiren wrth y pyst. Ni ddylai'r weiren dop fod yn llai na 1.05m o'r llawr. Lle bydd gwartheg neu ddefaid yn rhoi llawer o bwysau ar y ffens, dylech roi ail linyn o weiren uwch ben y netin yn ogystal â weiren ychwanegol o dan y netin. Ar ffens sy'n ffinio â llwybr neu ffordd gyhoeddus, rhaid i'r weiren uchaf fod yn weiren blaen neu rhaid gosod llinyn arall o weiren blaen wrth du allan y pyst sydd agosaf i'r llwybr.
- Gofalwch fod yn ffens newydd yn cydymffurfio â Safonau Prydeinig 1722 a 4102, fel y'u diwygiwyd.
- Peidiwch â defnyddio coed na llwyni fel pyst terfyn neu byst ffensio na'u defnyddio chwaith i gynnal weiren, staplau na netin.

**Gofynion a chyngor yn ychwanegol at y manylebau uchod:**

- Yr arfer gorau yw gosod y pyst o leiaf 1m o dan ddaear i'w sefydlogi.
- Rhaid cynnal y pwyslathau croesgornel ar naill ai blât sylfaen neu gan bostyn canol mewn lle addas i'w rhwystro rhag ymwthio allan.
- Gofalwch fod gennych y Drwydded Gweithgarwch Risg Llifogydd os ydych yn plannu neu'n ffensio wrth brif afon, gorlifdir neu amddiffyniad rhag llifogydd. Dylech gadw'r drwydded/ caniatâd (neu gadarnhad nad oes angen trwydded/caniatâd) a'u dangos pan ofynnir ichi. Gweler yr Amodau a'r Telerau i gael rhagor o fanylion.

- Lle bo’r Grantiau Bach – Creu Coetir yn gofyn am osod celfi mynediad fel camfeydd neu gatiau ar Hawliau Tramwy Cyhoeddus, eich cyfrifoldeb chi yw gofalu’ch bod yn cael caniatâd angenrheidiol yr awdurdod priffyrdd dan sylw o dan Adran 147 Deddf Priffyrdd 1980.

Diagram o Bostyn a Weiren â Netin Stoc



## SW13 - Ffens ceirw

Dyma'r safon y bydd gofyn i'r gwaith ei chyrraedd ichi allu cael taliad ar gyfer ffens ceirw. Rhaid i bren y ffens fod naill ai'n bren caled o goetir yng Nghymru neu'n bren meddal wedi'i drin dan bwysau. Rhaid i'r holl bren bara o leiaf 10 mlynedd. Peidiwch â defnyddio coed na llwyni fel pyst terfyn neu byst ffensio na'u defnyddio chwaith i gynnal weiren, staplau na netin.

Rhaid i'r pren, y weiren, y netin a'r staplau wedi'u galfaneiddio i gyd fod yn newydd. Bydd y taliad safonol yn cynnwys cyfran ar gyfer datgymalu, dymchwel a gwaredu'r ffensys sydd yno eisoes. Gofalwch fod yr holl ddeunydd a'r safonau adeiladu newydd yn cydymffurfio â'r manylebau isod yn ogystal ag â Safonau Prydeinig 1722 a 4102.

### Deunydd ac Adeiladu

| | | |
|---|---|---|
| **Pyst tynnu** | 3m x 15cm diamedr lleiaf y brig | 10tr x 6" |
| **Pwyslathau (strytiau)** | 2.75m x 10-13cm diamedr brig pren crwn | 9tr x 4-5" |
| **Pyst canol** | 2.75m x 8-10cm diamedr brig pren crwn | 9tr x 3-4" |
| **Netin** | Naill ai netin hydwyth iawn<br>Neu netin ysgafn hydwyth iawn | HT/13/190/15<br>LHT/13/190/15 |
| **Weiren dop** | Weiren blaen hydwyth iawn 1 x 12 ½ g | |
| **Weiren linell** | Weiren blaen hydwyth iawn 3 x 12 ½ g | |
| **Staplau** | 4cm (1 ½ ") 8g | |
| **Uchder gorffenedig** | 1.9m – 2m (6tr4" – 6tr 6") | |


### Adeiladwaith

Rhaid gosod pyst tynnu bob tro y mae'r ffens yn newid cyfeiriad (llorweddol neu fertigol) ac o leiaf bob 200m (tua 600tr) ar ddarn syth. Rhaid palu twll o 90cm (3tr) ar eu cyfer neu eu gyrru i'r dyfnder hwnnw. Rhaid torri rhicyn yn y pwyslathau tynnu a'u hoelio wrth y pyst tynnu, a'u sefydlogi â phlât gwthio rheilen wedi'i llifio 50cm x 38cm x 76cm (1tr 9" x 1½" x 3"). Rhaid gosod y pyst canol o leiaf bob 5m (16tr 6").

Rhaid tynnu'r netin a'i osod yn briodol fel na fydd bwlch o fwy na 5cm (2") rhwng gwaelod

y netin a’r ddaear. Gosodwch un weiren dop 10cm (4”) uwchben top y netin. Gosodwch y weiars llinell fel bod y llinyn isaf yn rhedeg ar hyd gwaelod y netin; bod y llinyn canol yn rhedeg 1m (3tr 4”) uwchlaw’r ddaear a’r llinyn top yn rhedeg ar hyd top y netin. Rhaid cysylltu’r weiars yn sownd wrth y netin â staplen gau neu roden gysylltu.

**Diagram - D**



## SW07 - Cilbyst a Gât Ceffyl o Bren

Mae'r nodyn technegol hwn yn disgrifio'r safon y bydd gofyn i'r gwaith ei chyrraedd ichi allu cael taliad ar gyfer 'Cilbyst a Gât Ceffyl o Bren'.

**Rhaid cadw at y canlynol:**

- Adeiladwch y Cilbyst a'r Gât Ceffyl o bren meddal sydd wedi'i drin o dan bwysedd neu o bren caled.
- Rhaid i'r gatiau fod o leiaf 1.5m o led a 1.3m o uchder. Gofalwch fod digon o le ar un ochr y gât i'r ceffyl sefyll tra bod y gât yn cael ei hagor.
- Gallwch brynu gât barod neu gallwch adeiladu gât â darnau o bren o'r meintiau canlynol:
  - Defnyddiwch gilbyst â chroestoriad o 10cm x 7.5cm o leiaf.
  - Defnyddiwch reiliau (asennau a chlefydau) â chroestoriad o 7.5cm x 2.5cm, ond dylai'r asen uchaf fod yn 10cm x 7.5cm.

- Dylech hongian y gât fel y mae'r diagram yn ei ddangos er mwyn ichi allu ei hagor o ddau gyfeiriad.
- Rhowch gliciedau sy'n gadael ichi agor y gât heb orfod dod oddi ar eich ceffyl.
- Gofalwch fod dimensiynau'r cilbyst fel a ganlyn; Y cilbost hongian – diamedr o 15cm fan leiaf - Y cilbost cau – diamedr o 12cm fan leiaf - Dylech osod bob postyn yn ddigon dwfn yn y pridd i'w wneud yn sefydlog.
- Gofalwch fod y gât yn cydymffurfio â BS5709.


**Peidiwch â:**

- Adeiladu cilbyst a gatiau ceffyl ar hawliau tramwy cyhoeddus heb ganiatâd Llywodraeth Cymru.
- Defnyddio concrit i sicrhau'r cynheiliaid pren yn y ddaear, gan y gall bydru'r pren ar lefel y ddaear.

**Gofynion a chyngor yn ychwanegol at y manylebau uchod:**

- Defnyddiwch glicied 'estyn' neu 'ffrwyn' er mwyn ichi allu agor y gât heb orfod ddod oddi ar eich ceffyl.
- Mewn ardaloedd o fandaliaeth, gellir troi bachyn uchaf y gât ben i wared fel ei bod yn anodd codi'r gât o'i lle.
- Yr arfer gorau yw gosod pob postyn o leiaf 70cm yn y pridd i'w sefydlogi.

## Enghraifft o gât ceffyl o bren



## SW08 - Cilbyst a Gât Mochyn o Bren

Mae'r Nodyn Technegol hwn yn disgrifio'r safon y bydd gofyn i'r gwaith ei chyrraedd ichi allu cael taliad ar gyfer 'Cilbyst a Gât Mochyn o Bren'. Mae gatiau mochyn yn cael eu defnyddio gan gerddwyr i groesi ffiniau caeau.

**Rhaid cadw at y canlynol:**

- Adeiladwch y gât a'r cilbyst o bren meddal sydd wedi'i drin o dan bwysedd neu o bren caled.
- Ni fydd stoc yn gallu mynd trwyddi sut bynnag mae hi, ond bydd pobl yn gallu cerdded trwyddi'n rhwydd.
- Gofalwch ei bod yn rhwystr effeithiol rhag beicwyr a cheffylau.
- Gallwch brynu gât barod neu adeiladu gât. Rhaid i'r gât;
- Fod o leiaf 1.2m o led a 1.2m o uchder.
- Rhaid i silindr 1m ar ei phen allu pasio trwy'r gât. Gofalwch nad yw 'gwddf'
- y gât mochyn (y lle culaf pan fyddwch yn cerdded trwyddi) yn llai na 1m o led.
- Gofalwch fod dimensiynau'r cilbyst a'r rheiliau (asennau a chleddyfau) fel a ganlyn;
  - Defnyddiwch gilbyst â chroestoriad o 10cm x 7.5cm fan leiaf.
  - Defnyddiwch reiliau â chroestoriad o 7.5cm x 2.5cm, ond dylai'r asen uchaf fod yn 10cm x 7.5cm.
  - Dylai'r cilbost hongian fod â diamedr 15cm fan leiaf.
  - Dylai'r cilbost cau fod â diamedr o 12cm fan leiaf.
  - Dylech osod bob postyn yn ddigon dwfn yn y pridd i'w wneud yn sefydlog.

- Gosodwch fachau'r gât fel eu bod yn ymestyn 3cm o'r cilbost. Bydd hynny'n gwneud i'r gât gau yn erbyn un o'r cilbyst ochrol pan fyddwch yn ei gollwng.
- Gofalwch ei bod yn cydymffurfio â BS5709:2006, fel y'i diwygiwyd. Ar hawl tramwy cyhoeddus, rhaid dewis y celficyn sy'n cyfyngu leiaf e.e. mae gât yn cyfyngu llai na chamfa.


**Peidiwch â:**

- Defnyddio concrit i sicrhau'r pyst yn y ddaear am y gall bydru'r pren ar lefel y ddaear.
- Rhoi weiren bigog ar y gât mochyn.

**Gofynion a chyngor yn ychwanegol at y manylebau uchod:**

- Iddi fod yn fwy fyth o rwystr i stoc, gosodwch glicied sy'n cau ei hun.
- Mewn ardaloedd o fandaliaeth, gellir troi'r bachyn uchaf ben i wared fel ei bod yn anodd codi'r gât o'i lle.
- Yr arfer gorau yw gosod pob postyn o leiaf 70cm yn y pridd i'w sefydlog.

## Enghraifft o gât mochyn pren



## SW15 - Gât Safonol (Metel)

Mae’r nodyn technegol hwn yn disgrifio’r safon y bydd gofyn i’r gwaith ei chyrraedd ichi allu cael taliad.

**Gofynion**

- Gât cae, saith asgell 12tr newydd safonol, wedi’i gwneud o ddur wedi’i alfaneiddio.
- Dylai’r rheiliau uchaf ac isaf fod o leiaf 41mm. Dylai diamedr tiwbiau a’r rheiliau canol fod o leiaf 32mm. Dylai’r pyst cau neu hongian fod yn diwbiau o ddur wedi’i alfaneiddio â diamedr o 88mm neu o bren meddal wedi’i drin mewn croes doriad o leiaf o 175mm x175mm.

## SW16 - Gât Safonol (pren caled)

Mae’r nodyn technegol hwn yn disgrifio’r safon y bydd gofyn i’r gwaith ei chyrraedd ichi allu cael taliad ar gyfer ‘Gât Safonol– pren caled’. Os ydych am newid y safon, rhaid cael caniatâd Llywodraeth Cymru cyn dechrau ar y gwaith.

**Rhaid cadw at y canlynol:**

- Gosodwch gatiau caeau sydd o leiaf 2.4m o led, ond ddim mwy na 4.2m. Os ydy’r bwlch yn fwy 4.2m, rhaid gosod dwy ddalen.
- Defnyddiwch gatiau caeau sydd wedi’u gwneud o bren caled, yn unol â’r dimensiynau yn y diagram isod.
- Defnyddiwch gatiau caeau o bren sy’n cydymffurfio â’r disgrifiad yn y diagram isod yn ogystal ag â Safon Brydeinig 3470, fel y’i diwygiwyd.
- Gosodwch y gât bren i hongian ar bostyn o leiaf 2.1m o hyd. Bydd gan bob postyn hongian groestoriad o 200mm x 200mm fan leiaf a bydd gan byst cau groestoriad o 175mm x 175mm.
- Gosodwch bob cilbost yn gywir yn y pridd, gan ddefnyddio concrit os oes angen. Gosodwch y bachau a’r cliciedau (latsys) ar y postyn yn ôl y gofyn.

**Peidiwch â:**

- Defnyddio pyst hongian na physt cau yn byst tynnu ar gyfer ffensys. Dylech ddefnyddio darn byr o bren hollt i ffurfio pwyslath (stryt) llorweddol rhwng postyn y gât (neu gilbost) a’r postyn tynnu agosaf.
- Defnyddio deunydd ail-law i adeiladu gât heb ganiatâd ymlaen llaw Llywodraeth Cymru.

## SW17 - Gât Safonol (Pren Meddal)

Mae’r nodyn technegol hwn yn disgrifio’r safon y bydd gofyn i’r gwaith ei chyrraedd ichi allu cael taliad ar gyfer ‘Gât Safonol – pren meddal’. Os ydych am newid y safon, rhaid cael caniatâd Llywodraeth Cymru cyn dechrau ar y gwaith.

**Rhaid cadw at y canlynol**

- Gosodwch gatiau caeau sydd o leiaf 2.4m o led, ond ddim mwy na 4.2m. Os ydy’r bwlch yn fwy na 4.2m, rhaid gosod dwy ddalen.
- Defnyddiwch gatiau caeau sydd wedi’u gwneud o bren meddal wedi’i drin dan bwysedd, yn unol â’r dimensiynau yn y diagram isod.
- Defnyddiwch gatiau caeau o bren sy’n cydymffurfio â’r disgrifiad yn y diagram isod yn ogystal ag â Safon Brydeinig 3470, fel y’i diwygiwyd.
- Bydd gan byst cau groestoriad o 175mm x 175mm.
- Gosodwch bob cilbost yn gywir yn y pridd, gan ddefnyddio concrit os oes angen.

**Peidiwch â:**

- Defnyddio pyst hongian na physt cau yn byst tynnu ar gyfer ffensys. Dylech ddefnyddio darn byr o bren hollt i ffurfio pwyslath (stryt) llorweddol rhwng postyn y gât (y cilbost) a’r postyn tynnu agosaf.

**Defnyddio deunydd ail-law i adeiladu gât heb ganiatâd ymlaen llaw Llywodraeth Cymru**

## SW99 - Taliad am gyngor

Mae'r taliad hwn yn talu am gostau rhoi cyngor penodol i'r fferm nad yw'n cael ei drafod yn y canllaw technegol. Caiff ei dalu gyda'r taliad sefydlu a bydd un taliad yr ymgeisydd y flwyddyn.

Nid yw'n cael ei dalu'n awtomatig a dylid ei hawlio yn yr un ffordd ag ar gyfer eitemau cyfalaf eraill, ar ôl cwblhau'r gwaith.

## SW63 - Pibelli Cyflenwi Dŵr

Mae’r nodyn technegol hwn yn disgrifio’r safon y bydd gofyn i’r gwaith ei chyrraedd ichi allu cael taliad ar gyfer ‘Pibell Cyflenwi Dŵr’. Os ydych am newid y safon, rhaid cael caniatâd Llywodraeth Cymru cyn dechrau ar y gwaith. Gellir defnyddio pibelli dŵr i gario dŵr i gafnau yfed os yw’r da byw’n cael eu rhwystro rhag defnyddio cylchred dŵr parhaol neu llyn gan weithgareddau Grantiau Bach – Creu Coetir.

**Mae’r grant hwn ar gael dim ond pan fo’n angenrheidiol i eithrio stoc o ardaloedd i’w tyfu gyda’r cymysgeddau rhywogaeth goeden canlynol:**

- **SW10 - Cymysgedd Rhywogaethau Coetir Gwlyb a Glan Nant 1100**
- **SW11 - Cymysgedd Rhywogaethau Coetir Gwlyb a Glan Nant 1600**
- **Gall fod hyd at 500m o Bibau Dŵr fesul cais**

**Rhaid cadw at y canlynol:**

- Rhaid i’r pibelli fod o bolyethylen glas dwysedd canolig gyda diamedr allanol o 2.5 cm fan leiaf.
- Defnyddiwch gymalau dwrglos o bres neu blastig.
- Rhaid claddu pibelli at ddyfnder digonol i sicrhau nad yw gweithgareddau ar y wyneb yn eu difrodi.
- Rhaid adfer tir wedi’i dyrchu fel ei fod fel y tir o’i gwmpas ar ôl gorffen gosod y pibelli.
- Rhaid gwarchod unrhyw bibelli sydd uwchlaw’r ddaear rhag anifeiliaid a rhew.
- Pan fydd pibell yn croesi ffos agored neu drac, rhaid gosod giârd o diwb dur neu bibell lawes dros y bibell, a’i gosod at ddigon o ddyfnder islaw’r ffos er mwyn ichi allu glanhau’r ffos. Wrth groesi trac fferm, gofalwch fod y bibell wedi’i diogelu’n ddigonol o dan y trac.
- Rhaid rheoli’r cyflenwad dŵr â falfiau ynysu/ tapiau cau ar bwynt y cyflenwad ac wrth bob cafn. Rhaid gwarchod y falfiau ynysu/tapiau cau rhag rhew a difrod gan stoc, a rhaid iddynt fod yn hawdd cyrraedd atynt.
- Lle bo angen claddu falfiau/tapiau cau, rhaid iddynt fod o leiaf 60cm o dan y pridd a dylai fod modd cyrraedd atynt drwy siambr archwilio dan glawr.
- Rhaid i bibell ddŵr ddarparu digon o ddŵr yfed oer i ail-lenwi’r holl gafnau dŵr ar ei hyd yn barhaus drwy’r flwyddyn mewn 10 munud.
- Rhaid i bob gwaith cyflenwi dŵr gydymffurfio â Chodau Ymarfer Safonau Prydeinig cyfredol BS6572, fel y’i diwygiwyd.

**Peidiwch â:**

- Difrodi gwasanaethau eraill megis cyflenwad dŵr, gwastraff, nwy, trydan a ffôn.

**Gofynion a chyngor yn ogystal â’r manylebau uchod:**

- Ystyriwch osod draeniau caeau a’r falfiau yn yr un lle er mwyn ichi allu cael atyn nhw’n rhwydd.
- Ystyriwch amrywiaeth o ffactorau wrth bennu diamedr y pibelli, gan gynnwys: pwysedd dŵr, capasiti dŵr, llif cyfnewidiol, hyd y bibell a newid o ran uchder, faint o ddŵr sydd ei angen, y nifer o gafnau, y nifer a’r math o stoc sy’n defnyddio pob cafn.

- Lle bydd cymalau wedi'u claddu dan ddaear, cynghorir eich bod yn marcio eu lleoliad, ar byst ffensiau er enghraifft, er mwyn cynorthwyo â chynnal a chadw yn y dyfodol.
- Rhaid claddu pibelli o leiaf 60cm o ddyfnder, ac yn ddyfnach os rhagwelir aredig dwfn neu aredig yr isbridd yn y dyfodol.
- Gellir gosod pibelli drwy dorri ffosydd, gydag aradr wadd neu aradr isbridd, gan ddibynnu ar y math o bridd a'r peiriannau sydd ar gael.
- Yr arfer gorau wrth osod pibell o dan ffos yw ei gosod 60cm islaw'r ffos er mwyn ichi allu glanhau'r ffos.
- Yr arfer gorau wrth osod pibell o dan drac fferm yw gosod y bibell ar wely 7.5cm o dywod a'i gorchuddio â 10cm arall o dywod cyn ôl-lenwi ar ei ben

## SW21 - Gât Ddŵr

Mae'r nodyn technegol hwn yn disgrifio'r safon y bydd gofyn i'r gwaith ei chyrraedd i chi allu cael taliad ar gyfer 'Gât Ddŵr'. Os ydych am newid y safon, rhaid cael caniatâd Llywodraeth Cymru cyn dechrfau ar y gwaith. Mae angen gatiau dŵr i reoli stoc pan fydd ffens yn croesi afon a nant. Maen nhw'n arbennig o ddefnyddiol os ydy lefel y dŵr yn amrywio'n fawr yn ystod y flwyddyn.

**Mae'r grant hwn ar gael dim ond pan fo'n angenrheidiol i eithrio stoc o ardaloedd i'w tyfu gyda'r cymysgeddau rhywogaeth goeden canlynol:**

- **SW10 - Cymysgedd Rhywogaethau Coetir Gwlyb a Glan Nant 1100**
- **SW11 - Cymysgedd Rhywogaethau Coetir Gwlyb a Glan Nant 1600**
- **Gall fod hyd at 5 Gât Ddŵr fesul cais**


**Rhaid cadw at y canlynol:**

- Adeiladwch gât sy'n cynnwys cyfres o byst pren crog wedi'u cysylltu wrth ddarn o gebl neu reilen bren gron sy'n cael ei hongian yn llorweddol rhwng pyst cynnal. Rhaid adeiladu pob gât fel ei bod yn addas ar gyfer proffil y nant unigol.
- Rhwng y gât ddŵr a'r ffens, cysylltwch ddarnau byr o reilen bren neu netin wrth byst cynnal sydd wedi'u gosod mewn mannau addas.
- Bydd y pyst crog wedi'u gwneud o bren wedi'i lifio a heb ei drin ac â chroesdoriad o 5cm sgwâr fan leiaf. Rhaid eu drilio a dirwyn y cebl neu weiren y ffens drwyddynt a gosod darnau gwahanu 15cm o hyd o bibell blastig rhyngddynt. Bydd bwlch felly o 15cm rhwng pob postyn crog.
- Os ydy gyli'r nant dros 1.5m o ddyfnder, bydd angen pyst crog 7cm sgwâr o faint o leiaf. Rhowch y post crog i hongiant ar bolyn crwn o bren gan ddefnyddio dolenni o weiar i'w cysylltu.


**Gofynion a chyngor yn ychwanegol at y manylebau uchod:**

- Wrth ddewis croesfan addas i osod y gât, bydd angen i wely'r nant fod yn galed a dylai fod yn rhwydd mynd o un lan i'r llall. Bydd y gwaith adeiladu a'r gwaith cynnal a chadw yn haws o ddewis croesfan addas.
- Trwy hongian y gât ar wahân i'r brif ffens, mater rhwydd fydd codi'r gât pan fydd llifogydd mawr heb ddifrodi'r brif ffens. Ni fydd llawer o ddifrod i'r gât a gallwch ei thrwsio a'i rhoi yn ei hôl.
- Mae'n well creu gatiau mawr mewn darnau. O wneud hynny, mae'n llai tebygol y caiff y gât gyfan ei hysgubo i ffwrdd gan lif mawr.
- Byddai'n ddoeth ichi garthu bôn y gât o dro i dro. Mae cymysgedd o ddail a changhennau'n gallu crynhoi wrth fôn y gât gan roi pwysau ar y weiars a'r polion a difrodi'r gât.
- Dylech hongian gatiau ar ongl, gyda gwaelod y gât yn gorwedd ar wely'r nant ar waered y nant. Bydd hyn yn rhwystro da byw rhag pasio o dan y gât pan fydd llif y nant yn isel.

Enghreifftiau o Gatiau Dŵr




Enghreifftiau o Gatiau Dŵr



## SW22 Cafnau Dŵr

Mae'r nodyn technegol hwn yn disgrifio'r safon y bydd gofyn i'r gwaith ei chyrraedd ichi allu cael taliad ar gyfer 'Cafnau Dŵr'. Os ydych am newid y safon, rhaid cael caniatâd Llywodraeth Cymru cyn dechrau ar y gwaith. Defnyddir cafnau dŵr i roi dŵr yfed i dda byw'n cael eu rhwystro rhag defnyddio cylchred dŵr parhaol neu llyn gan weithgareddau Grantiau Bach – Creu Coetir.

**Mae'r grant hwn ar gael dim ond pan fo'n angenrheidiol i eithrio stoc o ardaloedd i'w tyfu gyda'r cymysgeddau rhywogaeth goeden canlynol:**

- **SW10 - Cymysgedd Rhywogaethau Coetir Gwlyb a Glan Nant 1100**
- **SW11 - Cymysgedd Rhywogaethau Coetir Gwlyb a Glan Nant 1600**
- **Gall fod hyd at Cafn Dŵr fesul cais**

**Rhaid cadw at y canlynol:**

- Defnyddiwch gafnau dŵr sydd wedi'u gwneud o ddur wedi'i alfaneiddio, plastig neu goncrit.
- Gosodwch gafn sydd o leiaf 1.8m o hyd. Bydd naill ai wedi'i gysylltu â'r cyflenwad dŵr neu bydd dŵr yn llifo'n rheolaidd iddo o 'fowser', fel bod y stoc yn y cae yn cael digon o ddŵr i ateb eu gofynion. Bydd y taliad safonol yn cynnwys costau ffitiadau fel tap pelen ac ati.
- Defnyddiwch gafnau dŵr sydd wedi'u dylunio at y gwaith.
- Rhaid gofalu nad yw'r cafnau'n sarnu na'n gollwng dŵr. Mae'r taliad safonol yn cynnwys tâl am osod sylfaen.
- Gofalwch fod y cafn dŵr yn bodloni Cod Ymarfer y Safonau Prydeinig.

**Peidiwch â:**

- Ei osod wrth fwlch cae neu ger llwybr.
- Ar dir gwlyb gan y bydd perygl i'r stoc ei stablad (stwnsio'r pridd).

**Gofynion a chyngor yn ychwanegol at y manylebau uchod:**

- Peidiwch â gosod cafnau dŵr unrhyw le sy'n bwysig oherwydd ei blanhigion neu ei anifeiliaid gwyllt.
- Ceisiwch ofalu nad yw'r cafn yn cael effaith andwyol ar y dirwedd trwy ei gosod wrth ymyl cae a dewiswch ddeunydd na fydd yn eich taro'n chwith wrth ichi edrych arno fel rhan o'r dirwedd o'i gwmpas.
- Gosodwch gafn sy'n ddigon mawr i gyflenwi digon o ddŵr i'r anifeiliaid fydd yn yfed ohono.

**Enghraifft o gafn dŵr**

